



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 Rhif 1252 (Cy. 84)

2015 No. 1252 (W. 84)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

Rheoliadau Cynllun Taliad
Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y
Polisi Amaethyddol Cyffredin
(Cymru) 2015

The Common Agricultural Policy
Basic Payment and Support
Schemes (Wales) Regulations 2015

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth, o ran Cymru, ar gyfer gweinyddu Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu'r rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin (OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 608) ("y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol") a'r tri o Reoliadau cysylltiedig eraill yr UE y cyfeirir atynt yn rheoliad 2(1).

Mae rheoliad 3 yn pennu isafswm arwynebedd cymwys daliad y caniateir rhoi taliadau uniongyrchol i ffermwr mewn cysylltiad ag ef.

Mae rheoliad 4 yn pennu'r dyddiad pan fo'n rhaid i barseli a ddefnyddir fel y sail ar gyfer hawliad o dan y cynllun taliad sylfaenol fod ar gael i ffermwyr.

Mae rheoliad 5 yn pennu'r gweithgareddau y mae'n rhaid i ffermwr eu cyflawni er mwyn cynnal ardal amaethyddol mewn cyflwr addas i bori neu drin y tir.

Mae rheoliad 6 yn pennu isafswm y gweithgarwch amaethyddol y mae'n ofynnol ei gyflawni ar dir a gedwir yn naturiol mewn cyflwr addas i bori neu drin y tir.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations make provision, in relation to Wales, for the administration of Regulation (EU) No 1307/2013 of the European Parliament and of the Council establishing rules for direct payments to farmers under support schemes within the framework of the common agricultural policy (OJ No. L 347, 20.12.2013, p. 608) ("the Direct Payments Regulation") and the three other associated EU Regulations referred to in regulation 2(1).

Regulation 3 specifies the minimum eligible area of a holding in respect of which direct payments may be granted to a farmer.

Regulation 4 fixes the date on which parcels used as the basis for a claim under the basic payment scheme must be at the disposal of farmers.

Regulation 5 specifies the activities a farmer must carry out in order to maintain an agricultural area in a state suitable for grazing or cultivation.

Regulation 6 specifies the minimum agricultural activity required to be carried out on land that is naturally kept in a state suitable for grazing or cultivation.

Mae rheoliad 7 yn dynodi'r coed coedlan cylchdro byr sy'n gymwys o dan y cynllun taliad sengl, ac yn gosod y cylch cynaefu uchaf.

Mae rheoliad 8 yn darparu ar ba sail y mae'n rhaid cyfrifo cynnydd mewn taliadau uniongyrchol i ffermwyr cymwys sy'n 40 oed neu'n iau ac sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau ffermwyr ifanc.

Mae rheoliad 9 yn pennu'r trothwy lle na fydd gweithgareddau amaethyddol yn cael eu hystyried yn ddi-nod, yn nodi sut y mae ffermwr i ddangos mai arfer gweithgarwch amaethyddol yw ei brif fusnes ac yn darparu esemptiad i ffermwr a dderbyniodd EUR 5,000 neu lai o daliadau uniongyrchol yn y flwyddyn flaenorol rhag yr anghymhwysiad i gael taliadau uniongyrchol.

Mae rheoliad 10 yn nodi sut y caiff hawliau i daliadau o dan y cynllun taliad sylfaenol eu dyrannu ac yn pennu ar ba ddyddiad y mae'n rhaid i nifer yr hectarau cymwys fod ar gael i ffermwyr.

Mae rheoliad 11 yn nodi sut y caniateir i hawliau i daliadau o dan y cynllun taliad sylfaenol gael eu trosglwyddo drwy eu gwerthu neu eu lesio ac yn gwneud darpariaeth ynghylch o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid i drosglwyddwr hysbysu Gweinidogion Cymru fod yr hawliau i daliadau wedi eu trosglwyddo.

Mae rheoliad 12 yn darparu mai o fewn 30 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod cyntaf ar ôl dyddiad y trosglwyddiad, yw'r cyfnod y mae'n rhaid i drosglwyddai daliad hysbysu Gweinidogion Cymru am y trosglwyddiad a gofyn am daliad.

Mae rheoliad 13 yn nodi'r gweithgareddau hynny heblaw amaethyddiaeth a ganiateir ar ardal amaethyddol am gyfnod o hyd at 28 o ddiwrnodau ym mhob blwyddyn galendr ac yn dynodi'r ardaloedd hynny a ystyrir fel rhai a ddefnyddir yn bennaf at ddibenion heblaw amaethyddiaeth ac sydd felly yn anghymwys at ddibenion y cynllun taliad sylfaenol.

Mae rheoliadau 14 i 16 yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â chydran "wyrddu" y taliadau uniongyrchol, sy'n cysylltu taliadau ag arferion amaethyddol sy'n llesol i'r hinsawdd a'r amgylchedd. Mae rheoliad 14 yn nodi'r cyfnod sydd i'w ystyried at ddibenion penderfynu a gydymffurfiwyd â gofynion i dyfu amrywiaeth o gnydau. Mae rheoliad 15 yn darparu ar gyfer dynodi glaswelltiroedd parhaol sy'n amgylcheddol sensitif. Mae rheoliad 16 yn nodi'r pum ardal sydd i fod yn Ardaloedd â Ffocws Ecolegol ("AFfEau"), ac yn manylu ar gwmpas yr AFfEau o ran tir braenar, nodweddion tirwedd, ardaloedd coedlan cylchdro byr, ardaloedd coedwigaeth ac ardaloedd â chnydau sy'n bachu nitrogen.

Regulation 7 designates the short rotation coppice trees eligible under the basic payment scheme and sets the maximum harvest cycle.

Regulation 8 provides for the basis on which an increase in direct payments to qualifying farmers aged 40 or less and participating in the young farmers schemes must be calculated.

Regulation 9 fixes the threshold at which agricultural activities will not be considered to be insignificant, sets out how a farmer demonstrates that his or her principal business consists of exercising an agricultural activity and provides for an exemption from the exclusion from eligibility for direct payments of a farmer who received EUR 5,000 or less of direct payments in the previous year.

Regulation 10 sets out how payment entitlements under the basic payment scheme will be allocated and fixes the date on which the number of eligible hectares must be at the disposal of farmers.

Regulation 11 sets out how payment entitlements under the basic payment scheme may be transferred via sale or lease and makes provision for the period within which a transferor must notify the Welsh Ministers of a transfer of payment entitlements.

Regulation 12 provides that the period within which the transferee of a holding must inform the Welsh Ministers of the transfer and request payment is 30 days beginning with the first day after the date of the transfer.

Regulation 13 sets out those non-agricultural activities which are permitted on an agricultural area for a period of up to 28 days per calendar year and designates those areas which are classed as being predominantly used for non-agricultural activities and are therefore ineligible for the purposes of the basic payment scheme.

Regulations 14 to 16 make provision relating to the "greening" component of direct payments, linking payments to agricultural practices beneficial for the climate and environment. Regulation 14 sets out the period to be taken into account for the purposes of determining whether crop diversification requirements have been met. Regulation 15 provides for the designation of permanent grasslands which are environmentally sensitive. Regulation 16 sets out the five areas which are to be Ecological Focus Areas ("EFAs") and details the scope of the EFAs relating to land lying fallow, landscape features, areas of short rotation coppice, afforested areas and areas with nitrogen fixing crops.

Mae rheoliad 17 yn dirymu Rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer gweinyddu'r Cynllun Taliad Sengl a'r Cynlluniau Cymorth Ewropeaidd o ran Cymru, ond gyda darpariaeth arbed er mwyn parhau i gymhwyso Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1892 (Cy. 185)) mewn cysylltiad â cheisiadau am gymorth sy'n ymwneud â blynyddoedd hawlio cyn 2015.

Paratowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o effeithiau'r Rheoliadau hyn ar gostau i fusnesau, mewn perthynas â busnesau fferm yng Nghymru. Gellir cael copiâu ohono oddi wrth yr Adran Cyfoeth Naturiol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Regulation 17 revokes Regulations which make provision in relation to Wales for the administration of the European Single Payment and Support Scheme but with a saving provision for the continued application of the Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Wales) Regulations 2010 (S.I. 2010/1892 (W. 185)) in respect of aid applications relating to claim years before 2015.

A Regulatory Impact Assessment of the effects of these Regulations on the costs of business, in relation to farm businesses in Wales, has been prepared in respect of these Regulations. Copies can be obtained from the Department of Natural Resources, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2015 Rhif 1252 (Cy. 84)

2015 No. 1252 (W. 84)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

**Rheoliadau Cynllun Taliad
Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y
Polisi Amaethyddol Cyffredin
(Cymru) 2015**

**The Common Agricultural Policy
Basic Payment and Support
Schemes (Wales) Regulations 2015**

Gwnaed 22 Ebrill 2015

Made 22 April 2015

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 23 Ebrill 2015

Laid before the National Assembly for Wales
23 April 2015

Yn dod i rym 14 Mai 2015

Coming into force 14 May 2015

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) o ran polisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

The Welsh Ministers are designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) in relation to the common agricultural policy of the European Union.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn yr adran honno ac mae'n ymddangos i Weiniogion Cymru ei bod yn hwylus dehongli unrhyw gyfeiriadau at offerynnau'r UE yn y Rheoliadau hyn fel cyfeiriad at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

These Regulations make provision for a purpose mentioned in that section and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for any reference in these Regulations to EU instruments to be construed as a reference to those instruments as amended from time to time.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by section 2(2) of, and paragraph 1A of Schedule 2 to, the European Communities Act 1972.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

Title, application and commencement

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015.

1.—(1) The title of these Regulations is the Common Agricultural Policy Basic Payment and Support Schemes (Wales) Regulations 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(1) O.S. 2010/2690.

(2) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), a Rhan 1 o'r Atodlen iddi. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006.

(1) S.I. 2010/2690.

(2) 1972 c. 68. Section 2(2) was amended by section 27(1)(a) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51) and by section 3(3) of, and Part 1 of the Schedule to, the European Union (Amendment) Act 2008 (c. 7). Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Mai 2015.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “cais sengl” (“*single application*”) yw cais am daliadau uniongyrchol mewn perthynas â chynlluniau cymorth sy'n seiliedig ar arwynebedd; ystyr “chwyn goresgynnol estron” (“*non-native invasive weeds*”) yw'r canlynol—

Clymog Japan (*Fallopia japonica*)

Efwr enfawr (*Heracleum mantegazzianum*)

Jac y neidiwr (*Impatiens glandulifera*)

Rhododendron wyllt (*Rhododendron ponticum*);

mae i “glaswelltir parhaol” yr un ystyr ag a roddir i “permanent grassland” yn Erthygl 4(1)(h) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol ond mae hefyd yn cynnwys tir lle bydd llwyni bychan brodorol gan gynnwys y rheini a berthyn i deulu Ericaceae (grugoedd) a'r rhywogaeth *Ulex gallii* (eithin mân) a/neu rhywogaethau brodorol yn nheuluoedd Juncaceae (brwyn) a Cyperaceae (hesg) mwyaf niferus a gellir eu pori;

ystyr “y Rheoliadau Ewropeaidd” (“*the European Regulations*”) yw—

- (a) y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol;
- (b) y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig;
- (c) y Rheoliad Gweithredu Taliadau Uniongyrchol; a
- (d) y Rheoliad Gweithredu Llorweddol;

ystyr “y Rheoliad Gweithredu Llorweddol” (“*the Horizontal Implementing Regulation*”) yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system weinyddu a rheoli integredig, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio(1);

ystyr “y Rheoliad Gweithredu Taliadau Uniongyrchol” (“*the Direct Payments Implementing Regulation*”) yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 641/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol(2);

ystyr “y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol” (“*the Direct Payments Regulation*”) yw Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n

(3) These Regulations come into force on 14 May 2015.

Interpretation

2.—(1) In these Regulations—

“non-native invasive weeds” (“*chwyn goresgynnol estron*”) means the following—

Japanese knotweed (*Fallopia japonica*)

Giant hogweed (*Heracleum mantegazzianum*)

Himalayan balsam (*Impatiens glandulifera*)

Rhododendron ponticum (*Rhododendron ponticum*);

“permanent grassland” (“*glaswelltir parhaol*”) has the same meaning given in Article 4(1)(h) of the Direct Payments Regulation but also includes land where native dwarf shrubs including those in the family Ericaceae (heathers) and the species *Ulex gallii* (western gorse), and/or native species in the families Juncaceae (rushes) and Cyperaceae (sedges), are predominant and can be grazed;

“single application” (“*cais sengl*”) means an application for direct payments in relation to area related aid schemes;

“the Direct Payments Delegated Regulation” (“*y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig*”) means Commission Delegated Regulation (EU) No. 639/2014 supplementing the Direct Payments Regulation(1);

“the Direct Payments Implementing Regulation” (“*y Rheoliad Gweithredu Taliadau Uniongyrchol*”) means Commission Implementing Regulation (EU) No. 641/2014 laying down rules for the application of the Direct Payments Regulation(2);

“the Direct Payments Regulation” (“*y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol*”) means Regulation (EU) No. 1307/2013 of the European Parliament and of the Council establishing rules for direct payments to farmers under support schemes within the framework of the common agricultural policy(3);

“the European Regulations” (“*y Rheoliadau Ewropeaidd*”) means—

- (a) the Direct Payments Regulation;
- (b) the Direct Payments Delegated Regulation;
- (c) the Direct Payments Implementing Regulation; and
- (d) the Horizontal Implementing Regulation;

(1) OJ Rhif L 227, 31.7.2014, t. 69.

(2) OJ Rhif L 181, 20.6.2014, t. 74.

(1) OJ No. L 181, 20.6.2014, p. 1.

(2) OJ No. L 181, 20.6.2014, p. 74.

(3) OJ No. L 347, 20.12.2013, p. 608, as amended by Regulation (EU) No. 1310/2013 (OJ No. L 347, 20.12.2013, p. 865).

sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin(1);

ystyr “y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig” (“*the Direct Payments Delegated Regulation*”) yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 639/2014 sy’n ategu’r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol(2).

(2) Mae i dermau a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac a ddefnyddir hefyd yn unrhyw un neu ragor o’r Rheoliadau Ewropeaidd yr ystyr a roddir iddynt yn y Rheoliadau hynny.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at un o offerynnau’r UE yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd.

Isafswm arwynebedd cymwys daliad

3. At ddibenion Erthygl 10(1) a (2) o’r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, ni chaniateir rhoi unrhyw daliadau uniongyrchol i ffermwr pan fo arwynebedd cymwys y daliad y mae’r taliadau’n cael eu hawlio neu’n ddyledus yn unol ag Erthygl 10(1)(b) mewn perthynas ag ef yn llai na 5 hectar.

Y dyddiad pan fo’n rhaid i dir cymwys fod ar gael i ffermwr

4. Mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn y mae’r ffermwr yn gwneud datganiad yn ei chylch mewn cysylltiad â pharseli yn unol ag Erthygl 33(1) o’r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, y dyddiad y mae’n rhaid i’r parseli hynny fod ar gael i’r ffermwr yw 15 Mai o’r flwyddyn honno.

Cynnal ardal amaethyddol mewn cyflwr addas i bori neu drin y tir

5. At ddibenion Erthyglau 4(1)(c)(ii) a 4(2)(a) o’r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol ac Erthygl 4 o’r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig, bernir bod ardal amaethyddol yn cael ei chynnal mewn cyflwr addas i bori neu drin y tir pan fo ffermwr yn rheoli chwyn goresgynnol estron a phrysgwydd ar yr ardal honno.

“the Horizontal Implementing Regulation” (“y Rheoliad Gweithredu Llorweddol”) means Commission Implementing Regulation (EU) No. 809/2014 laying down rules for the application of Regulation (EU) No. 1306/2013 of the European Parliament and of the Council with regard to the integrated administration and control system, rural development measures and cross compliance(1).

(2) Terms used in these Regulations that are also used in any of the European Regulations have the meaning they bear in those Regulations.

(3) Any reference in these Regulations to an EU instrument is a reference to that instrument as amended from time to time.

Minimum eligible area of holding

3. For the purposes of Article 10(1) and (2) of the Direct Payments Regulation, no direct payments may be granted to a farmer where the eligible area of the holding for which the payments are claimed or due to be granted in accordance with Article 10(1)(b) is less than 5 hectares.

Date on which eligible land must be at farmer’s disposal

4. In relation to any year in which the farmer makes a declaration in respect of parcels pursuant to Article 33(1) of the Direct Payments Regulation, the date on which those parcels must be at the farmer’s disposal is the 15 May of that year.

Maintenance of an agricultural area in a state suitable for grazing or cultivation

5. For the purposes of Articles 4(1)(c)(ii) and 4(2)(a) of the Direct Payments Regulation and Article 4 of the Direct Payments Delegated Regulation, an agricultural area will be deemed to be maintained in a state suitable for grazing or cultivation where a farmer controls non-native invasive weeds and scrub on that area.

(1) OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 608, fel y’i diwygiwyd gan Reoliad (EU) Rhif 1310/2013 (OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 865).

(2) OJ Rhif L 181, 20.6.2014, t. 1.

(1) OJ No. L 227, 31.7.2014, p. 69.

Isafswm y gweithgarwch amaethyddol ar dir a gedwir yn naturiol mewn cyflwr addas i bori neu drin y tir

6. At ddibenion Erthyglau 4(1)(c)(iii) a 4(2)(b) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol ac Erthygl 5 o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig, ar ardaloedd amaethyddol a gedwir yn naturiol mewn cyflwr addas i bori neu drin y tir, bernir bod ffermwr yn cyflawni isafswm y gweithgarwch pan fo—

- (a) yr ardal honno yn cael ei phori ar ddwysedd stocio blyneddol o 0.01-0.05 o unedau da byw yr hectar; neu
- (b) y ffermwr hwnnw yn rheoli chwyn goresgynnol estron a phrysgwydd ar yr ardal honno.

Coedlan cylchdro byr

7. At ddibenion Erthygl 4(1)(k) a (2)(c) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol—

- (a) y rhestr o rywogaethau coed wedi eu plannu yw—
 - Gwernen (*Alnus spp*)
 - Bedwen arian (*Betula pendula*);
 - Collen (*Corylus avellana*);
 - Onnen Ewropeaidd (*Fraxinus excelsior*);
 - Pisgwydden (*Tilia cordata*);
 - Castanwydden bêr (*Castanea sativa*);
 - Masarnen (*Acer pseudoplatanus*);
 - Helygen (*Salix spp*);
 - Poplysen (*Populus spp*); a
- (b) y cylch cynaefu uchaf yw 20 mlynedd.

Ffermwyr ifanc

8.—(1) At ddibenion y cyfrifiad ar gyfer taliad sy'n ofynnol gan Erthygl 50(6) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, bydd nifer yr hawliau y mae ffermwr ifanc wedi eu gweithredu yn unol ag Erthygl 32(1) o'r Rheoliad hwnnw yn cael ei luosi â 25% o swm a gyfrifir drwy rannu canran sefydlog o'r terfyn cenedlaethol ar gyfer blwyddyn galendr 2019 â nifer yr holl hectarau cymwys a ddatgenir ar y cais sengl ar gyfer blwyddyn hawlio 2015.

(2) At ddiben Erthygl 50(9) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, mae un terfyn uchaf o 25 yn gymwys i nifer yr hectarau cymwys a ddatgenir gan y ffermwr.

Minimum agricultural activity on land naturally kept in a state suitable for grazing or cultivation

6. For the purposes of Articles 4(1)(c)(iii) and 4(2)(b) of the Direct Payments Regulation and Article 5 of the Direct Payments Delegated Regulation, on agricultural areas naturally kept in a state suitable for grazing or cultivation, a farmer will be deemed to be carrying out the minimum activity where that—

- (a) area is grazed at an annual stocking density of 0.01-0.05 livestock units per hectare; or
- (b) farmer controls non-native invasive weeds and scrub on that area.

Short rotation coppice

7. For the purposes of Article 4(1)(k) and (2)(c) of the Direct Payments Regulation—

- (a) the list of planted tree species is—

- Alder (*Alnus spp*)
- Silver Birch (*Betula pendula*);
- Hazel (*Corylus avellana*);
- European Ash (*Fraxinus excelsior*);
- Lime (*Tilia cordata*);
- Sweet chestnut (*Castanea sativa*);
- Sycamore (*Acer pseudoplatanus*);
- Willow (*Salix spp*);
- Poplar (*Populus spp*); and

- (b) the maximum harvest cycle is 20 years.

Young farmers

8.—(1) For the purposes of the payment calculation required by Article 50(6) of the Direct Payments Regulation, the number of entitlements a young farmer has activated in accordance with Article 32(1) of that Regulation will be multiplied by 25% of an amount calculated by dividing a fixed percentage of the national ceiling for the calendar year 2019 by the number of all eligible hectares declared on the single application for the claim year 2015.

(2) For the purpose of Article 50(9) of the Direct Payments Regulation, a single maximum limit of 25 is applicable to the number of eligible hectares declared by the farmer.

Ffermwyr actif

9.—(1) At ddibenion Erthygl 9(2) is-baragraff 3(b) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, nid yw gweithgareddau amaethyddol ffermwr yn ddi-nod os yw cyfanswm maint daliad y ffermwr hwnnw yn fwy na 21 hectar neu'n gyfwerth â hynny, yn unol â thrydydd is-baragraff Erthygl 13(1) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig.

(2) At ddibenion Erthygl 9(2) is-baragraff 3(c) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, mae prif fusnes neu amcanion cwmni ffermwr yn cynnwys arfer gweithgarwch amaethyddol pan fo'r ffermwr hwnnw yn darparu tystiolaeth i Weinidogion Cymru y cafwyd o leiaf 40% o gyfanswm derbyniadau'r busnes o weithgareddau amaethyddol yn y flwyddyn ariannol ddiweddaraf y mae tystiolaeth ar gael ar ei chyfer, yn unol â thrydydd is-baragraff Erthygl 13(3) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig.

(3) At ddibenion Erthygl 9(4) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, yr uchafswm yw EUR 5,000.

Hawliau'r Cynllun Taliad Sylfaenol

10.—(1) At ddibenion Erthygl 22(1) o'r Rheoliad Gweithredu Llorweddol, rhaid i geisiadau am ddyraniad o hawliau i daliadau o dan y cynllun taliad sylfaenol yn unol ag Erthygl 24 neu Erthygl 30, ac eithrio paragraff 7(e), o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru ddim hwyrach na 15 Mai yn y flwyddyn galendr berthnasol.

(2) Rhaid i gais am ddyraniad o hawliau i daliadau gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru ar yr un pryd â'r cais am gymorth o dan y cynllun taliad sylfaenol, yn unol ag Erthygl 22(2) o'r Rheoliad Gweithredu Llorweddol.

(3) At ddibenion trydydd is-baragraff Erthygl 24(1) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, bydd Gweinidogion Cymru yn dyrannu hawliau i daliadau i ffermwyr—

- (a) sydd â'r hawl i gael taliadau uniongyrchol yn unol ag Erthygl 9 o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol; a
- (b) sy'n cyflwyno cais am ddyraniad o hawliau i daliadau o dan y cynllun taliad sylfaenol yn unol â pharagraffau (1) a (2) o'r rheoliad hwn; ac
- (c) naill ai—
 - (i) a oedd yn cynhyrchu ffrwythau, llysiau, tatws bwyta, tatws hadyd neu blanhigion addurniadol; neu

Active farmers

9.—(1) For the purposes of Article 9(2) sub-paragraph 3(b) of the Direct Payments Regulation, a farmer's agricultural activities are not insignificant if that farmer's total holding size is greater than or equal to 21 hectares, in accordance with the third sub-paragraph of Article 13(1) of the Direct Payments Delegated Regulation.

(2) For the purposes of Article 9(2) sub-paragraph 3(c) of the Direct Payments Regulation, a farmer's principal business or company objects consist of exercising an agricultural activity where that farmer provides the Welsh Ministers with evidence that at least 40% of the total receipts obtained by the business in the most recent fiscal year for which evidence is available were obtained from agricultural activities, in accordance with the third sub-paragraph of Article 13(3) of the Direct Payments Delegated Regulation.

(3) For the purposes of Article 9(4) of the Direct Payments Regulation, the maximum amount is EUR 5,000.

Basic Payment Scheme entitlements

10.—(1) For the purposes of Article 22(1) of the Horizontal Implementing Regulation, applications for allocation of payment entitlements under the basic payment scheme in accordance with Article 24 or Article 30, except paragraph 7(e), of the Direct Payments Regulation, must be submitted to the Welsh Ministers no later than the 15 May of the relevant calendar year.

(2) An application for allocation of payment entitlements must be submitted to the Welsh Ministers at the same time as the aid application under the basic payment scheme, in accordance with Article 22(2) of the Horizontal Implementing Regulation.

(3) For the purposes of the third sub-paragraph of Article 24(1) of the Direct Payments Regulation, the Welsh Ministers will allocate payment entitlements to farmers who—

- (a) are entitled to be granted direct payments in accordance with Article 9 of the Direct Payments Regulation; and
- (b) submit an application for allocation of payment entitlements under the basic payment scheme in accordance with paragraphs (1) and (2) of this regulation; and
- (c) either—
 - (i) were producing fruits, vegetables, ware potatoes, seed potatoes or ornamental plants; or

- (ii) a oedd yn meithrin gwinllannoedd; neu
- (iii) nad ydynt erioed wedi dal hawliau'r cynllun taliad sengl, naill ai drwy berchenogaeth neu drwy eu lesio i mewn, ond sy'n gallu cyflwyno tystiolaeth ddilysadwy eu bod, ar 15 Mai 2013, yn cynhyrchu, yn magu neu'n tyfu cynhyrchion amaethyddol, gan gynnwys drwy gynaeafu, godro, bridio anifeiliaid a chadw anifeiliaid at ddibenion ffermio.

(4) At ddibenion Erthygl 24(2) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, y dyddiad y mae'n rhaid i nifer yr hectarau cymwys fod ar gael i'r ffermwr yw 15 Mai 2015.

Trosglwyddo hawliau

11.—(1) Yn achos gwerthu daliad neu ran ohono, caiff ffermwr, drwy gontract a lofnodir cyn 15 Mai 2015, drosglwyddo ynghyd â'r daliad neu ran ohono, yr hawliau i daliadau cyfatebol sydd i'w dyrannu, yn unol ag Erthygl 20 o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig.

(2) Yn achos lesio daliad neu ran ohono, caiff ffermwr, drwy gontract a lofnodir cyn 15 Mai 2015, lesio allan ynghyd â'r daliad neu ran ohono, yr hawliau i daliadau cyfatebol sydd i'w dyrannu, yn unol ag Erthygl 21 o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig.

(3) At ddibenion Erthygl 8(1) o'r Rheoliad Gweithredu Taliadau Uniongyrchol, y cyfnod y mae'n rhaid i drosglwyddwr yr hawliau i daliadau hysbysu Gweinidogion Cymru ynddo am y trosglwyddiad yw rhwng 16 Mai yn y flwyddyn galendr flaenorol a 30 Ebrill (gyda'r ddau ddyddiad hynny'n gynnwysedig) yn y flwyddyn galendr gyntaf y caiff y trosglwyddai gynnwys yr hawliau hynny yng nghais y trosglwyddai am daliadau uniongyrchol.

Trosglwyddo daliad

12. At ddibenion Erthygl 8(3)(a) o'r Rheoliad Gweithredu Llorweddol, y cyfnod y mae'n rhaid i'r trosglwyddai hysbysu Gweinidogion Cymru am y trosglwyddiad a gofyn am daliad o'r cymorth neu'r gefnogaeth, neu'r ddau, yw o fewn 30 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod cyntaf ar ôl dyddiad y trosglwyddiad.

- (ii) were cultivating vineyards; or
- (iii) never held owned or leased-in single payment scheme entitlements but can submit verifiable evidence that on 15 May 2013 they produced, reared or grew agricultural products, including through harvesting, milking, breeding animals and keeping animals for farming purposes.

(4) For the purposes of Article 24(2) of the Direct Payments Regulation, the date on which the number of eligible hectares must be at the disposal of the farmer is the 15 May 2015.

Transfer of entitlements

11.—(1) In the case of a sale of a holding or part of it, a farmer may, by contract signed before 15 May 2015, transfer together with the holding or part of it, the corresponding payment entitlements to be allocated, in accordance with Article 20 of the Direct Payments Delegated Regulation.

(2) In the case of a lease of a holding or part of it, a farmer may, by contract signed before 15 May 2015, lease-out together with the holding or part it, the corresponding payment entitlements to be allocated, in accordance with Article 21 of the Direct Payments Delegated Regulation.

(3) For the purposes of Article 8(1) of the Direct Payments Implementing Regulation, the period within which the transferor of payment entitlements must notify the Welsh Ministers of the transfer is from 16 May of the preceding calendar year to 30 April (both those dates included) of the first calendar year in which the transferee may include those entitlements in the transferee's application for direct payments.

Transfer of holding

12. For the purposes of Article 8(3)(a) of the Horizontal Implementing Regulation, the period within which the transferee must inform the Welsh Ministers of the transfer and request payment of the aid or support, or both, is 30 days beginning with the first day after the date of the transfer.

Gweithgareddau heblaw amaethyddiaeth

13.—(1) Yn unol ag Erthygl 32(3) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol—

- (a) rhestrir y gweithgareddau heblaw amaethyddiaeth y caniateir eu cynnal ar ardal amaethyddol o ddaliad am gyfnod o hyd at 28 o ddiwrnodau ym mhob blwyddyn galendr yn Rhan 1 o'r Atodlen;
- (b) rhestrir yr ardaloedd a ystyrir yn rhai a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer gweithgareddau heblaw amaethyddiaeth yn Rhan 2 o'r Atodlen;
- (c) os mai prif bwrpas y tir mewn unrhyw ardal yw ar gyfer gweithgareddau hamdden, neu weithgaredd heblaw amaethyddiaeth a restrir yn Rhan 1 o'r Atodlen, nid yw'n gyson ag ystyried bod y tir yn parhau mewn defnydd amaethyddol.

Tyfu amrywiaeth o gnydau

14. At ddibenion is-baragraff cyntaf Erthygl 40(1) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig, y cyfnod trin y tir perthnasol mewn unrhyw flwyddyn yw 1 Mai i 15 Gorffennaf (gyda'r ddau ddyddiad yn gynnwysedig).

Glaswelltir parhaol

15.—(1) Mae unrhyw laswelltir parhaol—

- (a) a leolir mewn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig; a
- (b) y mae'n ofynnol cael caniatâd ysgrifenedig mewn perthynas ag ef i'w aredig yn unol ag adran 28E(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(2) ond nad yw caniatâd o'r fath wedi ei gael,

wedi ei ddynodi yn laswelltir parhaol amgylcheddol sensitif at ddibenion Erthygl 45(1) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol.

(2) Yn y rheoliad hwn—

mae i "safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig" yr ystyr a roddir i "site of special scientific interest" yn adran 52(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

Non-agricultural activities

13.—(1) In accordance with Article 32(3) of the Direct Payments Regulation—

- (a) non-agricultural activities which may be carried out on an agricultural area of a holding for a period of up to 28 days per calendar year are listed in Part 1 of the Schedule;
- (b) areas which are classed as being predominantly used for non-agricultural activities are listed in Part 2 of the Schedule;
- (c) any area where the principal purpose of the land is for recreational activities, or a non-agricultural activity listed in Part 1 of the Schedule, is not consistent with the land being considered as remaining in agricultural use.

Crop diversification

14. For the purposes of the first sub-paragraph of Article 40(1) of the Direct Payments Delegated Regulation, the relevant cultivation period in any year is 1 May to 15 July (both dates included).

Permanent grassland

15.—(1) Any permanent grassland—

- (a) located in a site of special scientific interest; and
- (b) in relation to which written consent to plough is required in accordance with section 28E(1) of the Wildlife and Countryside Act 1981(2) but such consent has not been obtained,

is designated as environmentally sensitive permanent grassland for the purposes of Article 45(1) of the Direct Payments Regulation.

(2) In this regulation—

"site of special scientific interest" ("*safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig*") has the meaning given in section 52(1) of the Wildlife and Countryside Act 1981

(1) Mewn perthynas â thir yng Nghymru, mae adran 28E yn cael effaith fel pe bai'r cyfeiriad at "Natural England" yn gyfeiriad at Gorff Adnoddau Naturiol Cymru.

(2) 1981 p. 69.

(1) In relation to land in Wales, section 28E has effect as if the reference to Natural England was a reference to the Natural Resources Body for Wales.

(2) 1981 c. 69.

Ardaloedd â ffocws ecolegol

16.—(1) At ddibenion Erthygl 46(2) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol, ystyrir bod yr ardaloedd a grybwyllir ym mhwyntiau (a) (tir braenar), (g) (ardaloedd coedlan cylchdro byr), (h) (ardaloedd coedwigaeth) a (j) (ardaloedd â chnydau sy'n bachu nitrogen) ac, yn ddarostyngedig i baragraff (3), bwynt (c) (nodweddion tirwedd), yn Ardaloedd â Ffocws Ecolegol.

(2) Yn unol ag Erthygl 45(2) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig, ni chaniateir unrhyw gynhyrchu amaethyddol ar dir braenar mewn unrhyw flwyddyn rhwng 1 Chwefror a 31 Gorffennaf (gyda'r ddau ddyddiad yn gynwysedig).

(3) At ddibenion ail is-baragraff Erthygl 45(4) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig, mae nodweddion tirwedd yn gyfyngedig i'r canlynol—

- (a) perthi hyd at 10 metr o led; a
- (b) waliau cerrig traddodiadol sy'n 1 metr o uchder o leiaf ac yn ddim mwy na 4 metr o led.

(4) At ddibenion Erthygl 45(8) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig—

- (a) y rhestr o rywogaethau coed wedi eu plannu y caniateir eu defnyddio ar gyfer coedlan cylchdro byr yw—

Gwernen (*Alnus spp*),
Bedwen arian (*Betula pendula*),
Collen (*Corylus avellana*),
Onnen Ewropeaidd (*Fraxinus excelsior*),
Pisgwydden (*Tilia cordata*),
Castanwydden bêr (*Castanea sativa*),
Masarnen (*Acer pseudoplatanus*),
Helygen (*Salix spp*),
Poplys (*Populus spp*); a

- (b) o fewn y 2 flynedd gyntaf yn dilyn plannu unrhyw un neu ragor o'r rhywogaethau ym mharagraff (4)(a)—

- (i) ni chaniateir defnyddio unrhyw wrtaith mwynol ar y rhywogaethau hynny, a
- (ii) ni chaniateir defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion ond ar gyfer trin chwyn goresgynnol estron; a

- (c) y cylch cynaeafu hwyaf yw 20 mlynedd.

Ecological focus areas

16.—(1) For the purposes of Article 46(2) of the Direct Payments Regulation, the areas mentioned in points (a) (land lying fallow), (g) (areas of short rotation coppice), (h) (afforested areas) and (j) (areas with nitrogen-fixing crops) and, subject to paragraph (3), point (c) (landscape features), are considered to be Ecological Focus Areas.

(2) In accordance with Article 45(2) of the Direct Payments Delegated Regulation, there shall be no agricultural production on land lying fallow in any year between 1 February and 31 July (both dates included).

(3) For the purposes of the second sub-paragraph of Article 45(4) of the Direct Payments Delegated Regulation, landscape features are limited to—

- (a) hedges up to 10 metres wide; and
- (b) traditional stone walls at least 1 metre high and no more than 4 metres wide.

(4) For the purposes of Article 45(8) of the Direct Payments Delegated Regulation—

- (a) the list of planted tree species that can be used for short rotation coppice is—

Alder (*Alnus spp*),
Silver Birch (*Betula pendula*),
Hazel (*Corylus avellana*),
European Ash (*Fraxinus excelsior*),
Lime (*Tilia cordata*),
Sweet chestnut (*Castanea sativa*),
Sycamore (*Acer pseudoplatanus*),
Willow (*Salix spp*),
Poplar (*Populus spp*); and

- (b) within the first 2 years of planting any of the species in paragraph (4)(a)—

- (i) no mineral fertiliser may be used on those species, and
- (ii) plant protection products can only be used for the treatment of non-native invasive weeds; and

- (c) the maximum harvest cycle is 20 years.

(5) At ddibenion Erthygl 45(10) o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol Dirprwyedig—

(a) y rhestr o gnydau sy'n bachu nitrogen yw—

Alffalfa (*Medicago sativa*),
Ffa (*Phaseolus spp*),
Ffa (*Vigna spp*),
Pys-y-ceirw (*Lotus corniculatus*),
Gwygbys (*Cicer spp*),
Meillion (*Trifolium spp*),
Ffa'r gerddi (*Vicia faba*),
Corbys (*Lens culinaris*),
Bysedd-y-blaidd (*Luninus spp*),
Pys (*Pisum spp*),
Ffacbys (*Vicia spp* ac eithrio *Vicia faba*),
Maglys (*Medicago Lupulina*),
Ffa soia (*Glycine max*),
Yr wydro wen (*Melilotus albus*),
Y godog (*Onobrychus viciifolia*); a

(b) mewn unrhyw flwyddyn, rhaid i unrhyw gnwd sy'n bachu nitrogen gael ei hau erbyn 15 Mai a bod yn bresennol am 14 o wythnosau o'r dyddiad y'i heuwyd, neu hyd 1 Awst fan hwyaf.

(6) Wrth gyfrifo cyfanswm yr hectarau a gynrychiolir gan yr Ardal â Ffocws Ecolegol ar gyfer daliad, bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r ffactorau trosi a phwysoli a nodir yn Atodiad X i'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol.

Dirymiadau ac arbedion

17.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae'r offerynnau a ganlyn wedi eu dirymu—

- (a) Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010")(1); a
- (b) Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2012(2).

(2) Bydd Rheoliadau 2010 fel yr oeddent mewn grym yn union cyn 2015 yn parhau i fod yn gymwys mewn cysylltiad â cheisiadau am gymorth o ran 2014 a blynyddoedd hawlio cynharach.

(5) For the purposes of Article 45(10) of the Direct Payments Delegated Regulation—

(a) the list of nitrogen fixing crops is—

Alfalfa (*Medicago sativa*),
Bean (*Phaseolus spp*),
Bean (*Vigna spp*),
Birdsfoot trefoil (*Lotus corniculatus*),
Chickpea (*Cicer spp*),
Clover (*Trifolium spp*),
Faba bean (*Vicia faba*),
Lentil (*Lens culinaris*),
Lupin (*Luninus spp*),
Pea (*Pisum spp*),
Vetch (*Vicia spp* except *Vicia faba*),
Medick (*Medicago lupulina*),
Soybean (*Glycine max*),
Sweet clover (*Melilotus albus*),
Sainfoin (*Onobrychus viciifolia*); and

(b) in any year, any nitrogen fixing crop must be sown by 15 May and be present for 14 weeks from the date that it was sown, or until 1 August at the latest.

(6) When calculating the total hectares represented by the Ecological Focus Area of a holding, the Welsh Ministers will make use of the conversion and weighting factors set out in Annex X to the Direct Payments Regulation.

Revocations and savings

17.—(1) Subject to paragraph (2), the following instruments are revoked—

- (a) The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Wales) Regulations 2010 ("the 2010 Regulations")(1); and
- (b) The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Wales) (Amendment) Regulations 2012(2).

(2) The 2010 Regulations as in force immediately before 2015 shall continue to apply in respect of aid applications relating to 2014 and earlier claim years.

(1) O.S. 2010/1892 (Cy. 185).

(2) O.S. 2012/3093 (Cy. 311).

(1) S.I. 2010/1892 (W. 185).

(2) S.I. 2012/3093 (W. 311).

Rebecca Evans

Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, o dan awdurdod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

22 Ebrill 2015

YR ATODLEN Rheoliad 13

Gweithgareddau heblaw amaethyddiaeth

RHAN 1

Gweithgareddau heblaw amaethyddiaeth a ganiateir ar ardaloedd amaethyddol am hyd at 28 o ddiwrnodau ym mhob blwyddyn galendr

Saethu colomennod clai

Arwerthiannau cist car

Gwyliau

Sioeau a ffeiriau gwledig

Arwerthiannau a gwerthiannau fferm

Gweithgareddau marchogaeth

Balwnio

Parcio ceir*

Gwersylloedd sgowtiaid

Gwersylloedd geidiaid

Meysydd carafanau

Meysydd pebyll

Lleoliadau teledu a ffilmiau

Chwaraeon moduron

Moto cross

* Pa un a yw hynny'n gysylltiedig ag unrhyw weithgaredd arall heblaw amaethyddiaeth ai peidio

Rebecca Evans

Deputy Minister for Farming and Food, under the authority of the Minister for Natural Resources, one of the Welsh Ministers

22 April 2015

SCHEDULE Regulation 13

Non-agricultural activities

PART 1

Non- agricultural activities permitted on agricultural areas up to 28 days per calendar year

Clay pigeon shooting

Car boot sales

Festivals

Country shows and fairs

Farm auctions and sales

Equestrian activities

Ballooning

Car parking*

Scout camps

Guide camps

Caravan sites

Camping sites

TV and film locations

Motor sports

Moto cross

* Whether or not associated with any other non-agricultural activity

RHAN 2

Ardaloedd a ystyrir yn rhai a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer gweithgareddau heblaw amaethyddiaeth

Cyrsiau golff

Ardaloedd ymarfer ceffylau

Meysydd awyr

Parciau solar

Gosodiadau a chyfleusterau chwaraeon parhaol

PART 2

Areas classed as being predominantly used for non-agricultural activities

Golf courses

Gallops

Airports

Solar parks

Permanent sports installations and facilities

©Hawlfraint y Goron 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2015

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 Rhif 1252 (Cy. 84)

2015 No. 1252 (W. 84)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

Rheoliadau Cynllun Taliad
Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y
Polisi Amaethyddol Cyffredin
(Cymru) 2015

The Common Agricultural Policy
Basic Payment and Support
Schemes (Wales) Regulations 2015

£6.00

W2276/05/15

ON

ISBN 978-0-348-11104-0



9 780348 111040